**YSGOL UWCHRADD GATHOLIG SANT RICHARD GWYN**
**ARGAE LANE, Y BARRI** CF63 1BL

**HYSBYSIAD STATUDOL I SEFYDLU ADEILAD NEWYDD AR GYFER YSGOL UWCHRADD GATHOLIG SANT RICHARD GWYN I GYNYDDU NIFER Y LLEOEDD O 813 I 1,050 AC I SEFYDLU CANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL GYDA 60 O LEOEDD O FIS MEDI 2025**

**RHODDIR HYSBYSIAD** yn unol ag adrannau 42(1)(a) Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, 'y Ddeddf', a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, bod y corff llywodraethu ac Archesgobaeth Caerdydd, ar ôl ymgynghori â'r bobl ofynnol yn ôl y gofyn, yn cynnig gwneud addasiadau a reoleiddir i Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn drwy:

- Gynyddu capasiti'r ysgol i ddisgyblion o oedran ysgol statudol o 813 lle i 1,050 lle (paragraff 10 Atodlen 2 y 'Ddeddf')
- Sefydlu canolfan adnoddau arbenigol a fyddai'n darparu 60 lle i ddisgyblion oed uwchradd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ysgol ffydd cyfrwng Saesneg yw'r ysgol a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg.

Cynhaliodd y corff llywodraethu ac Archesgobaeth Caerdydd gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu ar gyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd a barn Estyn ar gael ar wefan yr ysgol a Chyngor Bro Morgannwg yma:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/Consultations/Expanding-St-Richard-Gwyn-Catholic-High-School.aspx

https://strichardgwyn.co.uk/

Cynigir gweithredu'r cynnig ym mis Medi 2025. Bydd yr ysgol yn parhau i fod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg a bydd yn parhau i dderbyn disgyblion o'r ddau ryw.

Y corff llywodraethu fydd yr awdurdod derbyn o hyd. Bydd y cynnig yn arwain at weld nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol yn cynyddu o 163 i 210 o leoedd. Nid yw'r trefniadau derbyn yn darparu ar gyfer dewis yn ôl gallu (bandio disgyblion). Ym mis Medi 2023, roedd 813 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol ar gofrestr yr ysgol. Bydd capasiti'r ysgol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol yn cynyddu o 813 lle i 1,050 lle. Bydd yr ysgol hefyd yn ateb y galw gan y datblygiadau tai newydd yn y Barri, Penarth a Sili.

Bydd y cynnig hefyd yn arwain at sefydlu adnodd arbenigol a fydd yn darparu 60 o leoedd uwchradd i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r 60 lle yn ychwanegol at y 1,050 o leoedd sydd ar gael yn yr ysgol ar gyfer addysg y brif ffrwd. Byddai derbyniadau i'r ganolfan adnoddau arbenigol yn digwydd drwy Banel Iechyd Emosiynol, Cymdeithasol ac Iechyd Meddwl y Cyngor.

Mae trefniadau Teithio Dysgwyr Cymru Gyfan [1]yn rhoi cymhwysedd i gludiant ysgol os yw disgyblion yn byw mwy na phellter cerdded i'w hysgol ddalgylch agosaf neu ddynodedig. Diffinnir pellter cerdded fel dwy filltir neu fwy i oedran cynradd a thair milltir neu fwy i oedran uwchradd, fel y mesurir gan y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael. Mae Bro Morgannwg yn cynnig trafnidiaeth yn unol â'r uchod. O ganlyniad i drosglwyddiad yr ysgol i adeilad newydd ar yr un safle, nid yw'r cynnig hwn yn effeithio ar drefniadau trafnidiaeth ysgol, cymhwysedd na hygyrchedd.

Bydd cymhwysedd disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n mynychu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol sydd â gofynion teithio penodol na ellir eu bodloni gydag addasiad rhesymol ar gludiant prif ffrwd yn cael eu pennu gan y Tîm ADY.

Yn unol ag adran 49 'y Ddeddf', gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig cyn pen 28 niwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion, hynny yw erbyn dydd Gwener, 29 Rhagfyr 2023.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Paul McLoughlin, Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, Argae Lane, Y Barri CF63 1BL neu e-bostio pmcloughlin@strichardgwyn.school;

Llofnod:



Paul McLoughlin, Cadeirydd y Llywodraethwr
1 Rhagfyr 2023

**NODYN ESBONIADOL – NID YW HYN YN FFURFIO RHAN O'R HYSBYSIAD STATUDOL**

Mae'r corff llywodraethu ac Archesgobaeth Caerdydd ynghyd â'r cyngor yn cynnig sefydlu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn gyda nifer y lleoedd yn cynyddu o 813 i 1,050 o leoedd o fis Medi 2025. Er bod trosglwyddo'r ysgol i'r adeilad newydd yn rhan o'r ddogfen ymgynghori hon, nid yw hynny'n destun y broses statudol gan y byddai'r trosglwyddiad ar safle presennol yr ysgol.

Gwneir y cynnig o dan adran 2.3 y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 y cyfeirir ato fel Addasiadau a Reoleiddir.

Y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol. Fodd bynnag, byddai derbyniadau i'r ganolfan adnoddau arbenigol yn digwydd drwy Ysgol Gatholig Sant Richard Gwyn (strichardgwyn.co.uk) Banel Iechyd Emosiynol, Cymdeithasol ac Iechyd Meddwl y Cyngor. Bydd yr ysgol yn darparu 1,050 o leoedd ar gyfer disgyblion uwchradd 11-16 oed a Chanolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) ar gyfer 60 disgybl. Bydd gan bob disgybl sy'n mynychu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) gynlluniau dysgu unigol. Byddant yn cael eu cefnogi mewn dosbarth arbenigol a bydd disgyblion yn mynychu dosbarthiadau prif ffrwd am gyfnodau amrywiol o amser.

Gwneir buddsoddiad cyfalaf sylweddol, yn amodol ar gyllid Llywodraeth Cymru, wrth sefydlu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn ar y safle presennol yr ysgol. Amcanbris y project yw £62 miliwn.

[1] Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a Teithio gan ddysgwyr: darpariaeth statudol a chanllawiau gweithredol Mehefin 2014